

Hysbysiad Preifatrwydd
System Electronig ar gyfer Cofnodi Symud Defaid a Geifr a
Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio defnydd Llywodraeth Cymru o'r wybodaeth a gaiff ei darparu pan fyddwch yn cofrestru/wedi cofrestru â EIDCymru - sef y system electronig ar gyfer cofnodi symud defaid a geifr yng Nghymru, a phan fyddwch yn cwblhau'r Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr.

Y rheolydd yw Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Caiff EIDCymru ei gweithredu gan EIDCymru Limited ar ran Llywodraeth Cymru.

Diben prosesu data personol - System Adrodd ar Symud EIDCymru:

- Caiff yr wybodaeth a ddarperir gennych ar gyfer adrodd ar symud ei defnyddio at ddibenion prosesu a dilysu symudiadau defaid, geifr a/neu geirw yn bennaf at ddibenion olrhain anifeiliaid er mwyn rheoli clefydau, a hynny'n unol â gofynion Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2015.

Diben prosesu data personol - Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr:

- Caiff yr wybodaeth a ddarperir gennych fel rhan o'r Stocrestr Flynyddol o Ddefaid a Geifr ei defnyddio ar gyfer cofnodi nifer y defaid a'r geifr a gaiff eu cadw ar eiddo unigol a'r rheswm dros eu cadw ee cig, llaeth, gwlan, bridio etc.
- Gallai Llywodraeth Cymru hefyd ddefnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu at ddibenion eraill, a allai gynnwys prosesu a phennu cymhwysra ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol, os cânt eu gweithredu, a'r rhai sy'n gysylltiedig â'n swyddogaethau a'n dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd. Os na fyddwch yn cyflwyno eich Stocrestr Flynyddol nodwch y gallech gael eich eithrio rhag bod yn rhan o gynlluniau cymorth ariannol yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth fel y gallwn gysylltu â chi mewn ymateb i ymholiadau a gyflwynir gennych drwy'r system. Y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu yw bod ei angen ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir wrth arfer yr awdurdod swyddogol a roddir i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn cadw'ch gwybodaeth cyhyd â bod eich CPH yn weithredol. Os caiff eich CPH ei gau, byddwn yn cadw eich gwybodaeth am o leiaf 7 mlynedd at ddibenion olrhain anifeiliaid a rheoli clefydau.

Rhesymau dros rannu data personol

Caiff Lywodraeth Cymru rannu gwybodaeth at ddibenion olrhain a rheoli clefydau â'r cyrff a ganlyn:

- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd eraill Llywodraeth y DU.

Gallai'r wybodaeth gael ei defnyddio at y dibenion canlynol:

- cofnodi symudiadau da byw

- gorfodi deddfwriaeth ar gyfer rheoli clefydau
- achosion o dorri rheolau ar wahardd symud
- achosion o dorri amryfal reolau ynghylch casglu a gollwng
- achosion o dorri gofynion ynghylch adnabod anifeiliaid
- pennu achosion o symud da byw yn anghyfreithlon
- llunio adroddiadau ystadegol
- llunio dadansoddiadau o symudiadau a gwaith dethol sy'n gysylltiedig ag archwiliadau
- monitro a rheoleiddio cydymffurfiaeth â'r Gofynion Rheoli Statudol ar gyfer Trawsgydymffurfio sy'n gysylltiedig â hawlio taliadau gwledig.
- prosesu a phennu cymhwystra ar gyfer cynlluniau cymorth ariannol, os cânt eu gweithredu

Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Caiff yr holl wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ei phrosesu a'i rheoli gennym yn unol â'n rhwymedigaethau a'n dyletswyddau o dan:

Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data;
 Deddf Diogelu Data 2018;
 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000;
 Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004;
 Pob cyfraith arall sy'n gysylltiedig â mynediad at wybodaeth.

O ystyried hyn, gallai gwybodaeth amdanoch chi, gan gynnwys gwybodaeth bersonol, fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth gan aelod arall o'r cyhoedd. Wrth i ni ymateb i geisiadau o'r fath gallai fod gofyn i ni ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch chi. Bydd ein hymateb i geisiadau o'r fath yn cyd-fynd â'n canllaw ymarferol 'Gofyn am wybodaeth gan Lywodraeth Cymru' sydd wedi'i chyhoeddi ar y rhyngwrdd ac sydd ar gael yma:

<https://lyw.cymru/gofyn-am-wybodaeth-gan-lywodraeth-cymru-ceisiadau-foi>

Hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data

Mae'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir yn eu cylch. Mae'r hawliau hyn yn cynnwys:

- yr hawl i gael eich hysbysu (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i fynediad at eich data personol
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i atal neu gyfyngu ar allu Llywodraeth Cymru i brosesu data personol
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i sicrhau bod data yn cael eu dileu (i'w hanghofio)
- Yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i sicrhau bod data anghywir yn cael eu cywiro

Os hoffech arfer unrhyw rai o'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru:

Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.
DataProtectionOfficer@gov.wales.

Mae gan unigolion yr hawl hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, i asesu a fyddai prosesu eu data personol yn debygol o gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data neu beidio. Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Information Commissioner's Office,
 Wycliffe House,

Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF.

Rhif Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 1231113 Gwefan: www.ico.org.uk